Cadeirydd/Chair: Arwel Lloyd

Llawr 1af CCF Cyf, Stryd y Bont,
Castell Newydd Emlyn,
Sir Gâr, SA38 9DX

Yr Atom, 18 Stryd Y Brenin,
Caerfyrddin,
Sir Gâr, SA31 1BN

01239 712934

ymholiad@mgsg.cymru
www.mentergorllewinsirgar.cymru

DISGRIFIAD SWYDD – SWYDDOG MAES DIGIDOL

MENTER GORLLEWIN SIR GÂR

Sefydlwyd Menter Gorllewin Sir Gâr yn dilyn uno Menter Taf Myrddin a Menter Bro Teifi yn 2007. Cymera'r Fenter ei lle o fewn rhwydwaith o Fentrau Iaith ar draws Cymru. Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn rhan o bartneriaeth Mentrau Sir Gâr. Mae'r Fenter yn gweithio dros ystod o feysydd a thros ardal ddaearyddol eang. Cydweithia'r Fenter yn agos gyda'r prif gyllidwyr, Llywodraeth a Chyngor Sir Gâr ynghyd a nifer o bartneriaid cymunedol a Sirol.

CEFNDIR

Mae'r Menter Gorllewin Sir Gâr yn gweithredu cytundebau i redeg sesiynau digidol ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau. Prif nod y gwaith fydd i weithio gyda'r di-waith i'w cefnogi i chwilio am swyddi. Mae'r gwaith yn cynnwys eu cynorthwyo i ddefnyddio cyfrifiadur, cofrestru ar wefannau chwilio am swyddi, creu cyfri e-bost, creu CV ac unrhyw elfen arall o chwilio am swydd ar lein. Rydym yn gweithio ar draws siroedd Ceredigion, Sir Gâr, Abertawe, Castell Nedd Port Talbot a Sir Benfro.

CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG

- Cydweithio gyda'r swyddogion eraill er mwyn darparu gweithdai digidol gan gynnwys
  - Sgiliau Cyfrifiadurol
  - Cofrestru ar wefannau chwilio am swyddi
  - Creu e-bost
  - Uwch lwytho dogfennau
  - Creu CV
- Cadw cofnod o fynychwyr a'r hyn maent wedi cyflawni
- Cyfathrebu a cydweithio gyda'r Canolfannau Byd Gwaith
- Gweithredu blaenoriaethau cyllidwyr yn unol â'r galw

YN ATEBOL I

Uwch Swyddog Digidol yw'r Rheolwr llinell. Mae holl staff y fenter yn atebol i'r Prif Weithredwr a'r Pwyllgor Rheoli drwy'r Cadeirydd.

LLEOLIAD

Bydd disgwyl i'r swyddog weithio'n ddyddiol o adref gan gynnal sesiynau hyfforddiant dros y ffon a thrwy Teams. Pan fydd cyfyngiadau covid-19 yn llacio fe fydd y swyddog yn gweithio allan ar leoliad, yn achlysurol yn un o swyddfeydd y fenter ac o adref.

Cadeirydd/Chair: Arwel Lloyd

Llawr 1af CCF Cyf, Stryd y Bont,
Castell Newydd Emlyn,
Sir Gâr, SA38 9DX

Yr Atom, 18 Stryd Y Brenin,
Caerfyrddin,
Sir Gâr, SA31 1BN

01239 712934

ymholiad@mgsg.cymru
www.mentergorllewinsirgar.cymru

CYMWYSTERAU

- Sgiliau cyfrifiadurol da
- Y gallu i gydweithio ag eraill ac ennyn diddordeb a brwdfrydedd
- Yn drefnus ac effeithiol, ac yn meddu ar sgiliau cyfathrebu da
- Yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Trwydded yrru lawn
- Parodrwydd i weithio oriau hyblyg ac anghymdeithasol

AMODAU

Bydd yr oriau gwaith yn 37 awr yr wythnos. Mae'r oriau hyn yn hyblyg a bydd disgwyl i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau fel bo'r galw. Rhoddir yr oriau hyn yn ôl yn llawn drwy system *Time Off In Lieu (TOIL).*

CYTUNDEB

Cynigir cytundeb am 6 mis gyda'r potensial am estyniad yn ddibynnol ar gyllid.

CYFLOG, TEITHIO & PENSIWN

Telir Cyflog yn unol â Phrif Ystod Cyflog Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol – Pwynt 12 (£22,183) y flwyddyn i Pwynt 20 (£25,991) y flwyddyn yn ddibynnol ar brofiad. Telir Costau Teithio yn unol â Lwfansau Teithio Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol. Telir cyfraniad pensiwn i Gronfa Pensiwn Dyfed pe dymunir hynny.

Bydd yr uchod i gyd yn newid gyda chwyddiant neu amrywiadau blynyddol fel y'i pennir gan y Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol.

GWYLIAU

Bydd 24 diwrnod o wyliau pro rata yn ogystal â gwyliau statudol.

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael archwiliad manwl gan y Biwro Cofnodion Troseddol.

Adolygir disgrifiadau swydd yn rheolaidd fel rhan o werthusiad staff a datblygiad personol gan y Prif Swyddog.